**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 26.03.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Adolygiad o'r codau presenoldeb ar gyfer ysgolion |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r canllaw diwygiedig ar godau presenoldeb ac mae'n cydnabod y cynnydd sylweddol y maent yn ei gynrychioli o ran gwella eglurder, cysondeb a diogelu ar draws y system. Ar y cyfan, mae'r canllaw'n gliriach, yn fwy strwythuredig ac yn fwy ymarferol i ysgolion ei roi ar waith. Mae cynnwys enghreifftiau manwl, yn enwedig y rhai sy'n dangos pryd y dylai a phryd na ddylai cod gael ei ddefnyddio, yn cefnogi mwy o gysondeb ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer camddehongli.

Fodd bynnag, mae nifer o risgiau ac amwyseddau'n parhau. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau diogelwch, anghysondebau posibl o ran pa godau sy'n cael eu rhoi i absenoldebau oherwydd iechyd meddwl a chorfforol, risgiau normaleiddio ymddygiadau penodol fel dysgu o bell ac amserlenni rhan-amser, a'r posibilrwydd o gynnydd mewn beichiau gweinyddol ar ysgolion. Hefyd, byddai nifer o rannau o'r canllaw yn elwa o fwy o eglurder cenedlaethol i sicrhau bod dysgwyr bregus yn cael eu hamddiffyn, bod data'n parhau i fod yn ystyrlon, a bod gweithredu'n hwylus ar draws Cymru.

Hefyd, rydym yn amlygu pwysigrwydd cefnogi ysgolion yn ystod cyfnod pontio wedi'i reoli'n ofalus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cydnawsedd â systemau rheoli gwybodaeth, cyfleu newidiadau'n glir i rieni a rhanddeiliaid ehangach, a darparu arweiniad ar sut i ddadansoddi tueddiadau dros y cyfnod pan fydd systemau codau yn esblygu. Heb hyn, mae perygl y bydd ysgolion, awdurdodau lleol a'r cyfryngau yn camddehongli ac mae potensial am adrodd yn anghywir.

Ar y cyfan, mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad y teithio ac mae'n cydnabod bod y canllaw diwygiedig yn drylwyr a defnyddiol. Fodd bynnag, mae angen mireinio a chydlynu cenedlaethol pellach i liniaru risgiau, cryfhau diogelu, a sicrhau bod data presennol yn aros yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn ystyrlon.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### 1. Codau ar gyfer presennol a hwyr

**Cwestiwn 1**

**(1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer y codau /\ yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r diweddariad i'r esboniad yn cynnal y diffiniad presennol ond mae'n darparu arweiniad cliriach ar y defnydd ohono, gan helpu i sicrhau mwy o gysondeb ar draws ysgolion. Mae hyn yn cryfhau diogelu ac yn cefnogi disgyblion bregus yn well. Fodd bynnag, gallai fod yn werth ystyried p'un a yw cadw cofrestr y prynhawn ar agor am 30 munud yn angenrheidiol o hyd ym mhob lleoliad.

**Cwestiwn 2**

**(1.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod L yn rhoi mwy o eglurder?**

**Yn rhannol**

**Sylwadau ategol:**

Byddai'n fuddiol pe bai canllawiau cliriach o ran beth sy'n cael ei ystyried yn 'hwyr' cyn bod cofrestru'n cau, er enghraifft cyrraedd mwy na 10 munud ar ôl dechrau swyddogol y diwrnod ysgol. Bydd sefydlu cyfnod safonol yn cefnogi mwy o gysondeb ar draws lleoliadau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer amgylchiadau unigol, gan gynnwys oedi'n gysylltiedig â chludiant ysgol neu awdurdod lleol, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus.

**2. Codau ar gyfer gweithgaredd addysgol cymeradwy**

**Cwestiwn 3**

**(2.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod B yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r wybodaeth ychwanegol yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth dan oruchwyliaeth oddi ar y safle a gweithio o bell, gan gefnogi neilltuo codau mwy cywir a chyson. Mae gwirio presenoldeb yn drylwyr yn hanfodol o hyd, yn enwedig i ddysgwyr bregus mewn darpariaethau amgen, i sicrhau eu diogelwch a monitro effeithiol.

**Cwestiwn 4**

**(2.2) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod P?**

**Nac ydym**

**Sylwadau ategol:**

Nid yw diben rhannu’r cod hwn wedi’i fynegi’n glir yn yr ymgynghoriad ac, o ganlyniad, mae perygl iddo greu cymhlethdod diangen a baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion. Byddai’n well cadw’r gweithgaredd hwn yn weithgaredd addysgol cymeradwy yn ôl disgresiwn y pennaeth. Gallai fod yn ddefnyddiol petai’r canllaw’n cynnwys enghreifftiau sy’n dangos sut dylid rhoi’r cod hwn ar waith yn ymarferol.

**Cwestiwn 5**

**(2.2.1). A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer codau P1 a P2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Nid yw diben rhannu’r cod hwn wedi’i fynegi’n glir yn yr ymgynghoriad ac, o ganlyniad, mae perygl iddo greu cymhlethdod diangen a baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion. Byddai’n well cadw’r gweithgaredd hwn yn weithgaredd addysgol cymeradwy yn ôl disgresiwn y pennaeth. Gallai fod yn ddefnyddiol petai’r canllaw’n cynnwys enghreifftiau sy’n dangos sut dylid rhoi’r cod hwn ar waith yn ymarferol.

**Cwestiwn 6**

**(2.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod V yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae egluro’r disgwyliadau o ran goruchwyliaeth a chofnodi presenoldeb ar gyfer trefniadau pontio yn ddefnyddiol ac mae’n cefnogi mwy o gysondeb ar draws lleoliadau. Mae arweiniad clir ar y maes hwn yn cryfhau diogelu ac mae’n sicrhau bod disgyblion, yn enwedig y disgyblion sy’n fwy bregus, yn cael eu monitro’n briodol yn ystod gweithgareddau pontio.

**Cwestiwn 7**

**(2.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod W yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r canllawiau’n gwahaniaethu’n glir rhwng profiad gwaith seiliedig ar y cwricwlwm a threfniadau profiad gwaith sy’n cael eu darparu trwy ddarpariaeth amgen. Mae’r gwahaniaeth hwn yn ddefnyddiol o ran sicrhau cofnodi cyson a chefnogi

goruchwyliaeth briodol ar ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwahanol fathau o leoliadau cysylltiedig â gwaith.

### 3. Codau ar gyfer absenoldeb awdurdodedig

**Cwestiwn 8**

**(3.1) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod C?**

**Ydym**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllawiau diwygiedig yn rhoi mwy o eglurder a thryloywder, gan gryfhau atebolrwydd i ysgolion yn gysylltiedig â threfniadau dysgu o bell ac addysg hyblyg. Gall y gweithgareddau hyn effeithio'n anghymesur ar grwpiau bregus o ddysgwyr, felly mae disgwyliadau cliriach yn helpu i sicrhau trosolwg mwy cyson a diogelu gwell.

**Cwestiwn 9**

**(3.1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r wybodaeth ychwanegol yn rhoi rhywfaint o eglurder, ond mae risg cymhwyso anghyson yn ymarferol yn parhau. Byddai paramedrau cliriach a disgrifiadau manylach yn helpu i liniaru'r risg hon a chefnogi cofnodi mwy cyson ar draws lleoliadau.

Er gwaethaf y canllawiau estynedig, mae'r cod hwn yn gweithredu i raddau helaeth fel y cod 'C' blaenorol ac mae'n parhau i fod yn gategori bras sy'n "dal popeth". Gallai hyn gynyddu'r tebygolrwydd o gamweinyddu a neilltuo codau yn ôl disgresiwn, yn enwedig pan fydd ysgolion dan bwysau i gyfiawnhau patrymau absenoldeb.

**Cwestiwn 10**

**(3.1.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Er bod hwn yn god defnyddiol i ddilyn ei drywydd, nid yw'n gwbl glir p'un a yw'n berthnasol i berfformiad artistig yn unig. Fel y caiff ei ddisgrifio ar hyn o bryd, gellid dehongli ei fod yn cynnwys perfformiadau chwaraeon, hefyd. Byddai amlinelliad

cliriach o fewn y canllawiau yn helpu i osgoi dehongli anghyson a sicrhau bod y cod yn cael ei ddefnyddio yn unol â’r bwriad.

**Cwestiwn 11**

**(3.1.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C3 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r canllawiau’n rhoi mwy o eglurder nag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae risg y gallai addysg hyblyg gael ei defnyddio’n anghymesur ar gyfer dysgwyr nad yw addysg brif ffrwd yn bodloni eu hanghenion yn llawn, yn enwedig y dysgwyr hynny sy’n profi gorbryder neu rwystrau eraill rhag bod yn bresennol, nad ydynt yn rhwystrau corfforol. Byddai canllawiau cliriach ar ddefnyddio addysg hyblyg yn briodol yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio’n gyson, dim ond lle bo’n addas, a bod cynlluniau cymorth a mesurau diogelu cadarn sy’n diogelu hawl addysgol dysgwyr yn cyd-fynd ag ef.

**Cwestiwn 12**

**(3.1.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C4 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r canllawiau’n ddefnyddiol, yn enwedig cynnwys cyfnod adolygu chwe wythnos i ysgolion. Mae hyn yn darparu fframwaith clir ar gyfer monitro amserol ac mae’n sicrhau bod y ddarpariaeth i ddysgwyr yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac yn gyson. Hefyd, mae’n cryfhau diogelu trwy leihau’r tebygolrwydd y bydd cyfnodau estynedig heb oruchwyliaeth briodol.

**Cwestiwn 13**

**(3.1.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C5 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Gall awdurdodi absenoldeb ar gyfer dysgu o bell beryglu diogelu ar gyfer y dysgwyr mwyaf agored i niwed. Nid yw’r canllawiau’n egluro sut mae ysgolion yn monitro p’un a yw plant yn cael at ddysgu ar-lein (h.y. yn bresennol neu’n absennol gartref) na sut mae’r ddarpariaeth yn cael ei monitro, ac nid yw ychwaith yn amlinellu trefniadau dilyn i fyny amserol yn debyg i’r adolygiad chwe wythnos yng nghanllawiau C4.

Mae perygl y gallai'r cod, yn anfwriadol, hyrwyddo dysgu o bell yn ddewis amgen i addysg ysgol. Dylai'r canllaw bwysleisio bod y cod hwn yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a dylai wahaniaethu'n glir rhwng darpariaeth o bell tymor byr a thymor hir, gyda chodau ar wahân i adlewyrchu hyn.

**Cwestiwn 14**

**(3.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod F yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllawiau'n darparu manylion priodol am wyliau teuluol cytunedig ac mae'n pwysleisio'n glir y dylai'r rhain gael eu hawdurdodi dim ond o dan amgylchiadau eithriadol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol drylwyr, gan gynnig enghreifftiau clir o adegau pryd gellir defnyddio'r cod hwn.

**Cwestiwn 15**

**(3.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod H yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Cytunwn yn llawn â'r canllaw; mae'n eglur ac wedi'i strwythuro'n dda, gydag enghreifftiau defnyddiol sy'n dangos yn effeithiol sut dylai'r cod gael ei ddefnyddio.

**Cwestiwn 16**

**(3.4) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod I?**

**Nac ydym**

**Sylwadau ategol:**

Er y gall gwahaniaethu rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl fod yn ddefnyddiol, mae awdurdodi absenoldeb yn benodol am resymau cysylltiedig ag iechyd meddwl yn codi nifer o bryderon. Mae risg y gallai neilltuo codau i iechyd meddwl disgyblion fel hyn dorri cyfrinachedd, oherwydd byddai holl staff yr ysgol yn gallu adnabod plant sy'n absennol am resymau iechyd meddwl. Hefyd, mae risg tor-cyfrinachedd pellach pe bai gwybodaeth am bresenoldeb yn cael ei harddangos yn anfwriadol mewn ystafelloedd dosbarth, gyda'r potensial am ddangos gwybodaeth sensitif i gymheiriaid.

Yn ogystal, gallai'r dull hwn achosi stigma i ddisgyblion yn anfwriadol, trwy eu labelu â phroblemau iechyd meddwl cyn unrhyw ddiagnosis ffurfiol a gallai gyfrannu at amgyffrediad anghywir o anghenion iechyd meddwl cynyddol pe bai data I2 yn cael

ei gamddehongli. Mae’n bosibl na fydd hyn yn adlewyrchu darlun cywir absenoldeb disgyblion.

Hefyd, mae potensial am faich gweinyddol cynyddol, oherwydd gallai ysgolion deimlo’u bod yn gorfod ceisio tystiolaeth feddygol i gyfiawnhau penderfyniadau neilltuo codau. Mae’r canllaw presennol ar gyfer I1 ac I2 yn ddefnyddiol gan ei fod yn cwmpasu salwch heb ofyn am wahanu categorïau; mae gwahaniaethu rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cynyddu risg defnydd anghyson. At hynny, mae’n bosibl na fydd iechyd meddwl bob amser yn cael ei adnabod fel salwch, a gallai defnyddio I1 yn rhy fras normaleiddio absenoldeb, yn anfwriadol. Yn olaf, mae disgyblion yn aml yn cyflwyno anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl sy’n cydblethu, gan ei gwneud hi’n anodd neilltuo codau ar wahân i’r rhain yn gywir.

**Cwestiwn 17**

**(3.4.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Gweler uchod

**Cwestiwn 18**

**(3.4.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Gweler uchod

**Cwestiwn 19**

**(3.5) Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig i’r ystyr ystadegol ar gyfer cod J1 o ‘weithgaredd addysgol cymeradwy’ i ‘absenoldeb awdurdodedig’?**

**Ydym**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r canllaw yn glir ac rydym yn rhagweld mai dim ond bach iawn o effaith gyffredinol gaiff y newid. Fodd bynnag, mae’n cyd-fynd yn fwy priodol ag absenoldeb awdurdodedig na gweithgaredd addysgol cymeradwy.

**Cwestiwn 20**

**(3.5.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod J1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw'n glir ac yn syml. Mae'n darparu eglurhad priodol o ddisgwyliadau a dylai fod yn hawdd i ysgolion ei ddefnyddio'n gyson.

**Cwestiwn 21**

**(3.6) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod M yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw'n datgan *"Os yw disgybl yn cyrraedd o apwyntiad meddygol yn ystod y cyfnod y mae'r gofrestr dal ar agor, dylid ei farcio â chod L gan eu bod wedyn yn cael eu hystyried yn bresennol."* Fodd bynnag, mae'r newid arfaethedig i god M yn ddryslyd, o bosibl, gan ei fod yn dibynnu'n fwy ar yr amser cyrraedd nag ar natur yr absenoldeb ei hun. Nid yw'n deg o reidrwydd i ddisgybl dderbyn marc hwyr pan fydd yn hwyr oherwydd ei fod wedi mynd i apwyntiad meddygol, sy'n gyfan gwbl y tu hwnt i'w reolaeth.

Mae'r broblem hon hefyd yn amlygu'r heriau a gyflwynir trwy rannu categori I. Mae neilltuo cod ar sail p'un a yw disgybl yn absennol oherwydd apwyntiadau meddygol neu arhosiad mewn ysbyty, yn enwedig wrth wahaniaethu rhwng anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn gymhleth a gall arwain at anghysondeb. Mae risg fod system y codau'n mynd yn anos ei dehongli a'i gweinyddu, heb ychwanegu eglurder ystyrlon i ysgolion neu deuluoedd.

**Cwestiwn 22**

**(3.7) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod S yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ddim yn siŵr**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae anghysondeb sylweddol o hyd ymhlith darparwyr wrth benderfynu pryd i ganiatáu absenoldeb astudio. Byddai'n fuddiol petai'r canllawiau'n pennu adeg briodol pryd y gall absenoldeb astudio ddechrau, er enghraifft o ddechrau'r amserlen arholiadau ffurfiol ar ddechrau Mehefin ymlaen. Mae arfer bresennol yn amrywio'n sylweddol ar draws y wlad a byddai disgwyliadau cliriach yn helpu i sicrhau dull mwy cyson.

Mae arweiniad o'r fath yn arbennig o bwysig i ddysgwyr bregus sy'n dibynnu ar drefn a sefydlogrwydd amgylchedd yr ysgol. Hefyd, mae angen eglurder pellach ynghylch disgwyliadau i ysgolion sy'n dewis cynnig absenoldeb astudio. Er enghraifft, dylai darpariaeth ar y safle fod ar gael o hyd i ddisgyblion nad ydynt yn dymuno, nac yn gallu, ymgymryd ag absenoldeb astudio. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael at gymorth yn deg.

**Cwestiwn 23**

**(3.8) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod E yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw a ddarparwyd yn addas. Fodd bynnag, efallai byddai'n werth ystyried p'un a ddylid rhannu codau gwahardd yn gategorïau cyfnod penodol a pharhaol. Byddai'r gwahaniaeth hwn yn gwella cywirdeb a defnyddioldeb dadansoddi data. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol yn cael yr un cod â disgybl sy'n cael ei wahardd am gyfnod penodol yn ystod y cyfnod 15 diwrnod cyn cyfarfod pwyllgor disgyblu llywodraethwyr ysgol a'r cyfnod 15 diwrnod dilynol cyn panel apelio posibl. Byddai gwahaniaethu'r categorïau hyn yn cynnig trosolwg cliriach ac yn galluogi patrymau gwahardd i gael eu monitro'n fanylach.

**Cwestiwn 24**

**(3.9) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod R yn rhoi mwy o eglurder?**

**Nac ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw yn ddefnyddiol, ond byddai mwy o eglurder yn fuddiol. Byddai ysgolion yn elwa o restr diwrnodau, wedi'i ddiweddaru'n flynyddol, pryd gellir defnyddio cod R ar gyfer defodau crefyddol. Ar hyn o bryd, mae'r canllaw ynghylch pryd dylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn yn amwys, gan arwain at arfer anghyson.

**Cwestiwn 25**

**(3.10) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod T yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw yn glir ac yn hawdd ei ddeall, gan ddarparu disgwyliadau syml i ysgolion.

## 4. Codau absenoldeb anawdurdodedig

**Cwestiwn 26**

**(4.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod N yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r 5 diwrnod ar gyfer rhoi eglurhad yn ddefnyddiol a bydd yn sicrhau bod ysgolion yn fwy rhagweithiol wrth fynd ar drywydd codau N. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelu, yn enwedig ar gyfer disgyblion a all wynebu risg, gan ei fod yn annog gwiriadau amserol ac yn lleihau’r tebygolrwydd o fethu sylwi ar absenoldebau heb esboniad.

**Cwestiwn 27**

**(4.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod O yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae defnyddio enghreifftiau yn arbennig o ddefnyddiol, gan eu bod yn rhoi eglurder ynghylch sut dylai’r canllawiau gael eu dehongli a’u defnyddio yn ymarferol.

**Cwestiwn 28**

**(4.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod G yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae enghreifftiau sy’n dangos lle na ddylai’r cod gael ei ddefnyddio yn arbennig o ddefnyddiol, gan eu bod yn lleihau amwysedd ac yn helpu ysgolion i osgoi eu camddefnyddio.

**Cwestiwn 29**

**(4.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod U yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae’r canllaw yn addas, ar y cyfan. Serch hynny, efallai gallai fod yn werth ystyried p’un a yw caniatáu 30 munud llawn ar ôl dechrau’r diwrnod ysgol cyn defnyddio cod U yn rhy hir. Gallai trothwy byrrach annog prydlondeb gwell a sicrhau bod data

presenoldeb yn adlewyrchu cyrraedd yn hwyr yn fwy cywir, heb beryglu tegwch nac eglurder i ysgolion.

**5. Codau ar gyfer 'ddim yn rhaid bod yn bresennol'**

**Cwestiwn 30**

**(5.1) A ydych yn cytuno â newid ystyr ystadegol cod D o 'weithgaredd addysgol cymeradwy' i 'ddim yn rhaid bod yn bresennol'?**

**Ydym**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 31**

**(5.1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod D yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllaw ynghylch rhoi gwybod i'r ysgol arall am absenoldeb plentyn yn ddefnyddiol. Yn rhy aml, nid yw'r cyfathrebu hwn yn digwydd yn ymarferol ac mae hyn yn creu risg diogelu sylweddol i blant bregus. Bydd disgwyliadau clir o ran hysbysu amserol yn cefnogi cydlynu gwell rhwng ysgolion ac yn sicrhau bod diogelwch a lles plant yn aros yn ganolog.

**Cwestiwn 32**

**(5.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod X yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 33**

**(5.3) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod Y?**

**Ydym**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r newid hwn yn gwella dealltwriaeth o'r rhesymau dros gau ysgol. Bydd yn cryfhau cywirdeb dadansoddi ac yn cefnogi atebolrwydd cliriach i ysgolion trwy sicrhau bod data ar gau ysgolion yn cael ei gofnodi'n gyson ac yn dryloyw.

**Cwestiwn 34**

**(5.3.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 35**

**(5.3.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 36**

**(5.3.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y3 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 37**

**(5.3.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y4 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 38**

**(5.3.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y5 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 39**

**(5.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Z yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 40**

**(5.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod # yn rhoi mwy o eglurder?**

**Ydyw**

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 41**

**(6) Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y codau presenoldeb diwygiedig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi o'r farn bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi o'r farn bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

**Sylwadau ategol:**

Mae natur y codau presenoldeb diwygiedig yn dechnegol ac yn perthyn yn benodol i ddosbarthu, cofnodi a monitro presenoldeb disgyblion. Felly, maent yn annhebygol o gael unrhyw effaith uniongyrchol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o fewn y system addysg. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar wella cywirdeb data, cryfhau diogelu ac adlewyrchu newidiadau mewn darpariaeth addysgol, yn hytrach nag addasu arferion iaith neu effeithio ar fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

**Cwestiwn 42**

**(7) Yn eich barn chi, a allai'r polisi arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid fel ei fod:**

- **yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol:**

Er bod natur y diwygiadau arfaethedig i'r codau presenoldeb yn dechnegol ac nid ydynt yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddefnyddio iaith, mae cyfleoedd o fewn y canllawiau ategol a'r trefniadau gweithredu i gryfhau'r effaith gadarnhaol ar y

Gymraeg. Byddai sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ategol, gan gynnwys diffiniadau, enghreifftiau o achosion, modiwlau hyfforddi, a gohebiaeth ag ysgolion yn gwbl ddwyieithog, ar gael ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg ac o'r un ansawdd, yn helpu i atgyfnerthu egwyddor peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliadau bod pob canllaw statudol ac anstatudol yn hygyrch ac yn gytbwys yn ieithyddol ar draws y ddwy iaith.

**Cwestiwn 43**

**(8) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad aethom i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.**

I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried darparu arweiniad i gyrff perthnasol ar sut i ddadansoddi tueddiadau mewn presenoldeb yn ystod y blynyddoedd gweithredu cyntaf? Yn benodol, sut dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gymharu codau hanesyddol â'r system godau newydd i sicrhau cywirdeb a pharhad wrth ddadansoddi tueddiadau?

I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r goblygiadau posibl i staff ysgolion o ran baich gwaith wrth weithredu'r codau newydd?

A ystyriwyd cyfleu'r codau presenoldeb newydd i bob rhanddeiliad – yn enwedig rhieni a gofalwyr?

Er bod categoreiddio absenoldeb yn ddefnyddiol, mae risg y gallai ymddygiadau penodol, fel dysgu o bell neu amserlenni rhan-amser, gael eu normaleiddio'n anfwriadol. Gall fod angen i ganllawiau bwysleisio y dylai trefniadau o'r fath fod yn eithriadol o hyd.

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda daprarwyr systemau rheoli gwybodaeth i sicrhau pontio didrafferth, cydnawsedd data a chywirdeb parhaus gwybodaeth am bresenoldeb?

Sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried canlyniadau anfwriadol posibl casglu data ychwanegol, manylach?  Er enghraifft: A allai ymddygiadau penodol gael eu normaleiddio dim ond oherwydd eu bod yn cael cod nawr? A allai'r cynnydd mewn cymhlethdod yrru ysgolion tuag at strategaethau presenoldeb di-fudd neu or-fiwrocrataidd?

Pa ystyriaeth a roddwyd i'r risg y bydd y cyfryngau'n camddehongli tueddiadau mewn presenoldeb, er engraifft salwch nad yw'n gorfforol, yn enwedig o gymharu â gwledydd eraill y DU a all ddefnyddio systemau codau gwahanol?

**Anhysbysrwydd**

**Gallai ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn anhysybys. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.**

☐ **Cytunaf i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**